pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Hydref 2025 Rhif 512



Bore Coffi Macmillan – tud 5

tud 5 Ysgol Tal-y-bont
tud 6 Ein Ffermydd
tud 11 Dal i fod yn fi
tud 12 Camp Elaine

# Dewi'r dewin cŵn




Mae'r Welsh Whisperer yn enw cyfarwydd i nifer ohonom, ond ydych chi'n gwybod pwy yw'r wyneb tu ôl y Welsh Wizard? Neb llai na Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont, Pencampwr Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol 2025! Dyma'r anrhydedd fwyaf i unrhyw un sydd ynghlwm â'r byd treialon, ac eleni, cynhaliwyd y gystadleuaeth rhwng yr 11eg a 13eg o Fedi, ar ystâd ysblennydd Brinkinalt, Y Waun yn ymyl Wrecsam.

Yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf, bu 60 ci a bugail yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ennill un o'r pymtheg lle oedd ar gael yn y rownd derfynol ar y trydydd diwrnod. Llwyddodd Dewi i gyflawni camp aruthrol trwy gipio dau le iddo ef a'i gŵn, Jock a Clwyd Bob- tad a mab. Wynebant gwrs llawer anoddach y tro hwn, gyda phellter o 800m i gyrchu'r ddeg dafad gyntaf, crynhoi deg dafad arall o ben arall y cae, eu gyrru o amgylch y cwrs â'i gilydd cyn mynd ati i ddidoli a chadw'r pum dafad gyda choleri i'w corlannu.

Pan gamodd Dewi at y polyn, gyda Jock yn dynn wrth ei draed, aeth y gynulleidfa niferus yn ddistaw. Mae Dewi'n enwog yn y byd treialon erbyn hyn ac roedd pawb yn disgwyl yn eiddgar i weld ei rediad cyntaf gyda'i hen gi ffyddlon, Jock. Mae Jock mewn oed teg - naw oed - ond yn wir, roedd ar dân ac yn gweithio fel ci hanner ei oed! Cafodd Jock rediad arbennig ac ni chollodd lawer o farciau ar y cwrs anodd hwn. Gwyddai'r dorf bod Jock a Dewi ar frig y bwrdd sgorio ar ôl y rhediad yna.

Wrth gwrs, roedd nifer o gŵn da i ddod eto, gan gynnwys Clwyd Bob. Camodd Dewi i'r cae eto, y tro hwn gyda Bob wrth ei sawdl. Unwaith yn rhagor, distawodd y dorf, a daliodd pawb eu hanadl wrth i Bob gychwyn ar ei rediad. Yn wir, cafodd Bob rediad arbennig a llwyddodd yn yr holl dasgau. Credai pawb mai hon oedd y rhediad orau hyd yn hyn. Ni ddatgelwyd y sgorau tan ddiwedd y cystadlu. Doedd dim mwy y gallai Dewi wneud yn awr ond aros

parhad tud 2

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 2


## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Ellyw, Betsan a Mair, gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Helen (helen.iwan@btinternet.com), Lyn a Siwan fydd yn golygu rhifyn Tachwedd.

Y dyddiad cau yw 7 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 14 Tachwedd.


parhad o dudalen 1

# Dewi'r dewin cŵn

a gwylio ambell un arall adnabyddus yn cystadlu, megis Aled Owen a Kevin Evans.

Ar ôl i'r pymtheg ci redeg, daeth hi'n amser cyhoeddi'r canlyniadau. Bachodd Dewi a Jock y trydydd safle, daeth Kevin Evans yn ail ac ar y brig gyda sgôr anhygoel o 611 oedd Dewi a Clwyd Bob! Daw hyn yn dilyn ei lwyddiant yn 2022, pan ddaeth i'r brig â Jock- tipyn o gamp felly i ennill am yr eildro, a hynny mor ifanc yn ei yrfa.

Doedd dim gorffwys i Dewi na'r cŵn wedi hyn, wrth iddynt wynebu eu her nesaf ddiwedd Medi yn Nolgoch, Bryncrug. Bu'n rhaid cystadlu yma i sicrhau eu lle yn nhîm Cymru ar gyfer Treialon y Byd 2026. Mae'n braf iawn gallu datgelu fod Dewi wedi ennill ei le yma eto gyda Jock a Clwyd Bob! Llongyfarchiadau gwresog i ti, Dewi, a phob lwc yn yr Alban flwyddyn nesaf!



"Paid â phoeni. Ma' digon o afalau eleni!"



*Rowland, Mari a Iolo Davies, a Ianto Hughes o Lambed yn dal y cwpan*

Llongyfarchiadau i deulu Dolclettwr ar eu llwyddiant gyda thriawd o ŵyn hyrddod yn arwerthiant blynyddol y Defaid Dorset yn Exeter. Dyma'r tro cyntaf i'r gwpan ddod i Geredigion a'r ail dro i Gymru.

## Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch blynyddol Eglwys St. Pedr, Elerch ar Ddydd Sul 5 Hydref dan ofal y Parch. Lynn Rees. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Lynn a weinyddodd y cymun bendigaid. Y pregethwr gwadd oedd Yr Hybarch Archddiaconi Mones Farah, a chafwyd neges bwrpasol ganddo ar destun pwysigrwydd ffydd. Diolch i nifer o aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont am ein cefnogi, a diolch hefyd i Margaret Griffiths, Y Borth, am ddarparu lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y gwasanaeth.

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**HYDREF**

10 **Bingo** 7 Llew Gwyn. Elw at CRhA Ysgol Gymunedol Tal-y-bont
12 **Bethel** 10 Trefniant Lleol, Delyth a Bleddyn Huws
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 4 Gwasanaeth Diolchgarwch
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15
14 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Wyau addurniedig' (Elaine Williams)
15 **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach
17 **Sesiwn Nos Wener** 8 Y Llew Gwyn (Aeron Pughe a'i Gyfeillion)
**Gwledd Gymunedol yr Hydref** 7.30–9.30 Cletwr
18 **Dal Ati** 10.30–11.30 Cletwr
19 **Bethel** 10 Cyrddau Pregethu Seion Aberystwyth, Iwan Llywelyn Jones
**Rehoboth** 2 J. Tudno Williams
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
20 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Caws Halwmi Gwarffynnon' (Gwen Davies)
23 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
25 **Canu Gwerin (Three Sides of Folk)** 7 Cletwr
26 **Bethel** 10 Geraint Evans (Diolchgarwch)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**TACHWEDD**

1 **Dal Ati** 10.30–11.30 Cletwr
2 **Bethel** 10 Uno â Seion, John Treharne
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
9 **Gwasanaeth Sul y Cofio** 10.45 Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
11 **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Paentio ar lechi' (Ffion George)
15 **Dal Ati** 10.30–11.30 Cletwr
**Adloniant lleol** 4–7 Neuadd Llanfach
29 **Ffair y Neuadd** 2 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**BOB WYTHNOS**

**Neuadd Goffa Tal-y-bont** Bore Mawrth 10–12 Cwtsh Cynnes, coffi a chlonc
**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

# Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Gruff Mason, Maes y Coed, Ffwrnais ac Elain Haf Davies, Pandy Tudur, ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuniadau da iddynt yn eu cartref newydd yn Gwern Prys, Ysbyty Ifan.

**Llongyfarchion**
Llongyfarchiadau i Mari Davies, Doleifion, Tre'r-ddôl, ar ei doethuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd yng Ngogerddan.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Enoc a Margaret Jenkins, Penbryn, Taliesin ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, ar enedigaeth ŵyr a gor-ŵyr bach newydd, Iago John James. Brawd bach i Sianco a Jini a mab i Anwen a Geraint James. Pob hwyl i'r teulu sydd bellach wedi ymgaretrefu yn Lledrod.

Llongyfarchiadau i Geraint ac Eirian Evans, Garn Wen, Tal-y-bont ar enedigaeth eu hwyres fach Soffia Medi Morris Evans yng Nghaerdydd. Soffia yw merch cyntaf anedig i Dyfan a Catrin. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

**Priodasau Rhuddem**
Llongyfarchiadau i Rowland a Bethan Davies, Dolclettwr, Tre'r-ddôl a Dafydd a Glenys Jenkins, Penpompren, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas ruddem. Ymlaen i'r aur nesaf!

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Paul a Meinir Fleming, Penygraig, Tre'r-ddôl a ddathlodd eu priodas aur yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r fordaith i ddathlu'r achlysur.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Meleri Mair, Bont-goch gynt. Roedd yn ferch i'r gwleidydd Gwynfor Evans ac yn chwaer i gyn-weinidog Capel Bethel, Tal-y-bont, Guto Prys ap Gwynfor.

# Priodasau



Priodwyd Ioan Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont, ag Angharad Lewis ar 6 Medi yng Nghapel Tonyfelin, Caerffili. Gweinyddwyd y briodas gan y Parch. Denzil John a chafwyd eitemau yn ystod y gwasanaeth gan aelodau o Gôr Caerdydd. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Nicola Morgan a Geraint Jones, Brynolwg, Bont-goch ar achlysur eu priodas ar 19eg Medi.

**Pen-blwyddi Arbennig**
Llongyfarchiadau i Glain Erin Jones, 14 Dôl Pistyll, Tal-y-bont sy'n dathlu ei phen-blwydd arbennig yn 18 oed ar 17 Hydref. Gobeithio y cei ddiwrnod da a dathliad wrth dy fodd.

Bu sawl un arall yn dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar hefyd. Llongyfarchiadau i Eleri Jenkins, Cerrigcaranau Uchaf, Tal-y-bont; Rhian Dewhurst, The Bungalo, Tal-y-bont; Mark Joseph, Yr Hen Ysgol, Tal-y-bont; Phyllis Ellis, Tre'r-ddôl a Nia Jones, Brynolwg, Bont-goch.

**Yn Gwella**
Da gweld fod Bethan Davies, Dolclettwr, Tre'r-ddôl yn gwella wedi ei hanffawd diweddar a bod yr asgwrn bellach yn gyfan!

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292


Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Mawrth i Gwener
9.30 – 5.00
01970 832 674

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 4

# CFfI Tal-y-bont




*Bedwyr, Teleri ac Ynyr - aelodau tim stocmon hŷn y clwb*



*Mat, Lloyd, Alaw a Mari – aelodau ifanc y clwb*

## Llwyddiant i aelodau CFfI Tal-y-bont ar Ddiwrnod Maes

Cynhaliwyd Diwrnod Maes Rhan 1 ar Fferm Hafod, Aberteifi, ddydd Sul 28 Medi, a bu'n ddiwrnod arbennig i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) Tal-y-bont a gymerodd ran yn y cystadlaethau. Daeth aelodau ifanc a phrofiadol at ei gilydd i arddangos eu sgiliau mewn ystod o gystadlaethau barnu stoc ac yn y timau.

Yn y cystadlaethau unigol, gwelwyd llwyddiant arbennig i aelodau'r clwb: Bedwyr Siencyn a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Stocmon Hŷn; Mirain Evans a enillodd y pedwerydd safle yn Stocmon Iau a Mari Evans a gipiodd y trydydd safle yn y gystadleuaeth Barnu Wyn Tew Dan 18.

Yn y cystadlaethau tîm, cipiodd Efa Saunders Jones, Gwawr Morgan, Mirain Evans a Tomos Jones yr ail safle yn Tîm Stocmon Iau ac yna daeth Bedwyr Siencyn, Ynyr Siencyn a Teleri Morgan yn bedwerydd yn Tîm Stocmon Hŷn.

Yn ôl trefnwyr y digwyddiad, roedd y safon sgiliau a'r brwdfrydedd a ddangoswyd gan y cystadleuwyr yn drawiadol, gan bwysleisio gwerth y diwrnod fel cyfle i ddysgu a datblygu profiad newydd.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau am gynrychioli eu clwb a'r ardal yn wych, yn enwedig yr aelodau hynny oedd yn cystadlu am y tro cyntaf – da iawn chi!

Ymlaen â ni nesaf at yr ail Ddiwrnod Maes ar y 4ydd o Hydref ar Fferm Brenan, Y Gors. Dyma ddiwrnod gwych arall wrth i ni sicrhau'r 4ydd safle.

Enillodd Ynyr y gystadleuaeth Treialon Cŵn Defaid, a daeth ef a'i frawd, Bedwyr yn 2il yn y gystadleuaeth ATV. Sicrhaodd Lleucu Evans ac Alaw Morgan y 4ydd wobr yn y Fferm Ffactor Iau, ac fe gafodd Efa Saunders Jones 4ydd am dorri cyw iâr.

Bu nifer o aelodau eraill yn brysur hefyd; bu Catrin Marian a Cari Rees yn addurno boncyff siocled, a Beca Davies a Gwawr Morgan yn addurno calendr adfent Nadoligaidd. Mae'n braf iawn gweld clwb mor ifanc yn llwyddo ar lefel sir. Ymlaen at yr Eisteddfod!

*Ela Jones*



*Cari Rees a Catrin Marian yn addurno boncyff siocled*

# Clwb Gwawr y Pennau



Ar ôl cael noson agoriadol y Cletwr ddechrau Medi i drefnu rhaglen y flwyddyn, aeth deg ohonom ar y bws i Aberaeron i gael te prynhawn yn Harbourmaster. Diolch i'r staff am groeso cynnes Cymreig ac am y te bendigedig. Dyma ddechrau dathliadau'r Clwb yn 21ain.
Yn dilyn hyn, croesawyd Ffion George o Lanfihangel y Creuddyn atom yn Neuadd y Pennau i gyflwyno ei busnes llunio celf, 'Llechi Ffion'.

Mae darluniau Ffion yn baentiadau apelgar, yn glir ac ar lechen. Er trwch y garreg, a'i hymylon geirwon, mae'r lluniau yn fyw i'r llygad. Nodi'r berthynas rhwng y creadur a'i berchennog yw un o'i phrif themâu. Neges arall gwaith Ffion yw'r dathliad o'n harferion blynyddol wrth ffermio: yr wyna a'r didoli, y cneifio a'r treialon a'r sioeau lleol.

Does dim syndod bod nifer fawr o gomisiynau yn dod at Ffion George gan rai sydd am lun o hoff gi, neu greadur penodol. A dweud y gwir, roedd y gweithiau, y daeth Ffion â nhw i'w harddangos, yng nghist car ambell aelod cyn pen dim o dro, a'r prynu yn brawf o'r apêl.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Clwb Gwawr y Pennau yn mynd am dro i weld drama "Llanast!" gan Theatr Bara Caws yng Nghanolfan Arad Goch ar 19 Tachwedd, ac i weld Ysgol Penweddig yn perfformio sioe gerdd "Annie" ar 26 Tachwedd. Estynnir croeso cynnes i fenywod lleol ymuno â ni.

## Anrhydedd

Yn dilyn ei llwyddiant â'r gosod blodau yn y Sioe Frenhinol eleni (dwy wobr gyntaf a chanmoliaeth uchel), cafodd Christine Gilbert, Swn y Nant, Tre'r-ddôl ei gwahodd i greu arddangosfeydd blodau yn Abaty Westminster fis diwethaf ar gyfer gwasanaeth coffa 85 mlynedd ers Brwydr Prydain. Mynychodd 5 o aelodau eraill NAFAS y digwyddiad hefyd, o ardal Mercia a Gogledd Cymru. Tybed a welodd rai ohonoch ei phedestal hardd o flaen y côr wrth wylio'r gwasanaeth ar y teledu?

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 5

# Ysgol Tal-y-bont



## Bore Coffi Macmillan

Cafwyd bore hyfryd yn neuadd yr Ysgol wrth i ni groesawu rhieni a phobl y pentref er mwyn codi arian i Macmillan. Wedi cyfarfod gyda'r Cyngor Ysgol penderfynwyd mynd ati i drefnu'r bore coffi gan greu posteri a'u dosbarthu o gwmpas y pentref. Diolch enfawr i'r rhieni am gyfrannu'r cacennau di-ri - cafodd y pwyllgor sbort wrth osod y cacennau allan ac addurno'r neuadd. Roedd y neuadd yn llawn bwrlwm wrth i bawb mwynhau cacen a chlonc. Uchafbwynt y bore oedd gwrando ar y plant yn canu! Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu.



## Braich Garw

Croeso i flwyddyn 5 newydd y dosbarth wrth iddynt ymuno â ni yn nosbarth Braich Garw am y flwyddyn 2025/2026. Rydym wedi dechrau ar ein thema newydd, Tal-y-bont a'r Fro ac yn edrych ymlaen at astudio mwy am yr ardal leol. Y gobaith yw creu gwefan newydd i'r ardal yn casglu'r hyn mae pob dosbarth wedi'i ddysgu. Mae'r plant wedi mynd ati i ddechrau creu'r gwefan yn barod. Rydym yn edrych ymlaen at rannu'r wefan gyda'r gymuned yn y dyfodol agos!

## Dosbarth Allt y Crib

Wrth i'r flwyddyn ysgol newydd ddechrau roedd hi'n braf croesawu dosbarth newydd. Wedi ychydig o weithgareddau i ddod i adnabod ein gilydd yn well, aethon ni ati i gasglu syniadau am ein thema - Tal-y-bont a'r Fro. Roedden ni'n awyddus iawn i ddewis chwedl o'r ardal a dewisom Chwedl Taliesin! Ar ôl gwrando ar y stori a chreu mapiau stori, cawsom ddewis sut yr oedden ni am gyflwyno'r stori yn ein geiriau ein hunain. Dewisodd rai i ysgrifennu sgriptiau a chawsom hwyl yn creu mygydau a phropiau cyn perfformio o flaen y dosbarth. Rydym yn ffodus iawn o gael bod yn rhan o brosiect Profiad Cyntaf Gwasanaeth Cerdd Ceredigion y tymor yma a diolch yn fawr i Mrs Helen Williams am ddod i gynnal sesiynau cerdd gyda ni. Rydyn ni wedi cael blas ar ganu'r recorder a'r iwcalili yn ogystal â'r llais.




## Hoci

Dyma ein criw hoci ar gyfer y flwyddyn 2025/2026. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm ar eu llwyddiant hyd yma, yn ennill y ddwy gêm gyntaf. Diolch i Mrs Hughes am hyfforddi'r plant! Pob lwc iddynt ar weddill y gemau.

## Traws gwlad

Llongyfarchiadau i bawb am eu llwyddiant yn nhraws gwlad cylch Aberystwyth. Roedd yn bleser gweld y plant yn ymdrechu a dyfalbarhau!

## Dosbarth Mynydd Gorddu

Hyfryd oedd medru mynd am dro o gwmpas y pentref yng ngwres Yr Hydref yn ddiweddar. Aeth y plant i weld y parc, siop Y Lolfa, y garej, y Fferyllfa, y Neuadd Goffa a Siop y pentref. Diolch yn fawr i bawb am ein croesawu ac am eich caredigrwydd.


Cafwyd bore llawn canu a hwyl wrth i blant y cylch Meithrin ddod draw atom i gymdeithasu. Edrychwn ymlaen yn fawr at yr ymweliad nesaf.



# Yn Naturiol

## Gweirgloddiau Ymylon Ffyrdd y Fro!

Pleser amheuthun oedd gweld lleiniau ymylon ffyrdd y fro eleni. Roedd lleiniau Tre Taliesin, Tal-y-bont a Thre'r-ddôl yn llawn blodau gwyllt gyda phryfed yn gloddesta arnynt – yn union fel gweirgloddiau bach. Yn ôl yr elusen Plantlife, mae lleiniau ymylon ffyrdd Prydain gyda'i gilydd yn gorchuddio ardal maint Dorset ac, o gael eu rheoli'n briodol, yn creu rhwydwaith o laswelltir cyforiog o flodau gwyllt. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod 97% o'n gweirgloddiau blodau gwyllt wedi'u colli ers y 1940au.



Y glöyn byw llwyd y fagwyr *(wall butterfly)* a cheiliogod rhedyn wrth ymyl Llwybr Mai

Nid yn unig ydi glaswelltiroedd o'r fath yn wych o ran bioamrywiaeth ond maen nhw hefyd yn storio carbon. Pob clod i Gyngor Sir Ceredigion ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru am ystyried natur fel hyn ac os ydyn nhw'n digwydd arbed arian drwy wneud, gorau oll!

Dw i wedi mwynhau cerdded i Dal-y-bont ar Lwybr Mai sawl gwaith dros yr haf ac ro'n i wrth fy modd wrth weld y pryfed ar y blodau fel meillion cochion a chlust y gath wrth ymyl y llwybr ac ar y lleiniau ymylon ffyrdd, gan gynnwys cachgi bwms, pili palod a phryfed hofran. Dw i hyd yn oed wedi gweld cachgi bwms yn manteisio ar y "chwyn" fel clust y gath a llysiau'r gingroen sy'n tyfu wrth ymyl y palmant yn Nhre Taliesin.

Erbyn hyn, mae contractwyr wedi torri'r lleiniau'n fyr gan symud y toriadau i ffwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod y glaswellt ddim yn ffrwythloni'r tir (mae blodau gwyllt yn tueddu i ffafrio pridd gwael) gan greu darnau moel lle mae hadau'r blodau'n gallu tyfu y flwyddyn nesaf.

Dw i wedi cael achlust o ambell gŵyn bod y lleiniau ymylon ffyrdd yn edrych yn flêr ond i mi, maen nhw'n fwy diddorol a deniadol o lawer y dyddiau yma – ac i'r bywyd gwyllt wrth gwrs!

Am fwy o wybodaeth, gweler:
https://www.llyw.cymru/ymylon-ffyrdd-glaswelltiroedd-amwynder-syn-cynnal-bywyd-gwyllt

*Siân Saunders*

# Digwyddiad **Ein Ffermydd** Cyswllt Ffermio

Dros yr haf efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi ar ddrôn mawr yn cylchredeg dros y caeau yn Maesnewydd. Roedd hyn oherwydd y prosiect ymchwil a ariannwyd gan Gyswllt Ffermio i ganolbwyntio ar dyfiant glaswellt. Y syniad gwreiddiol oedd gofyn a allai drôn fesur y glaswellt ac felly bod yn offeryn defnyddiol iawn ar y fferm. Byddai hwn yn helpu i ddydd-rannu bwyd i'r gwartheg yr ydym i gyd wedi gweld yn croesi'r ffordd ym Maesnewydd.

Mae cylchdroi gwartheg drwy'r caeau yn rhoi saib i'r borfa ac yn hanfodol i ffermio adfywiol (regenerative agriculture). Mae'n fanteisiol i'r amgylchedd, y pridd a'r gwartheg hefyd. Dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o gynhyrchu llaeth a'r ffordd fwyaf cyfeillgar i leihau carbon wrth gynhyrchu bwyd. I wneud hyn yn fuddiol, mae angen i ni fesur y tyfiant, sydd ar hyn o bryd yn cael ei wneud yn bennaf gan ddefnyddio platemeter llaw. Mae gan dronau y potensial i gynyddu cywirdeb a lleihau'r amser a dreulir yn casglu'r wybodaeth honno.

Mae'r ymchwil wedi ei seilio ar fuddiannau cydgysylltiedig Jâms (gwartheg a phorfa), Jason (dronau) a David (dadansoddi data). Roedd yn ffordd wych i ni ddod at ein gilydd yn rheolaidd a thrafod y prosiect dros baned.




*Jâms Morgan; Jason Brook, Prifysgol Aberystwyth a Dai Evershed, Wallog (Mentor Cyswllt Ffermio)*

Nid oedd modd hedfan am ychydig o fisoedd wrth i'r RAF ymarfer eu system cloi signalau uwch ein pennau, a Jason a'i ddronau yn ymroi i archwilio dolffiniaid ar Ynys Enlli. Er gwaethaf y dechrau araf, fe lwyddom i gasglu data diddorol a chynhyrchu canlyniadau addawol. Tra'r oedd Jason yn hedfan y drôn bob dydd pan oedd y tywydd yn caniatáu dros gyfnod o 3 wythnos, byddai Jâms yn casglu data gyda platmetrau. Yna, byddai David yn cymharu'r ddau set o ddata i weld a fyddai meddalwedd yn gallu rhagweld darlleniad y platmetrau. Mae'n debygol y bydd ffermwyr yn dechrau mabwysiadu dronau ar gyfer casglu data ar eu porfeydd a chnydau- nid yn unig ar gyfer tyfiant ond ar gyfer iechyd planhigion, cyflwr y pridd a darganfod chwyn hefyd.

Manteision eraill o hediadau rheolaidd sy'n mapio'r porfeydd yw adnabod pethau fel chwyn yn y borfa. Trwy hyfforddi deallusrwydd artiffisial (AI) i adnabod a logio ble mae'r chwyn, bydd ffermwyr yn gallu creu map unigol i dargedu'r rhywogaethau'n fwy uniongyrchol a lleihau'r defnydd o gemegau i daclo'r chwyn. Mae hyn yn bwysig iawn o ran yr amgylchedd a lleihau costau.

Mae'r holl beth wedi arwain at ddiwrnod agored ar y fferm ar yr 11eg o Fedi. Wedi'u hysgogi gan ddiddordeb mewn dronau o bosib (neu'r lluniaeth!), daeth tua 30 o bobl, ffermwyr ac eraill i gaeau Maesnewydd i weld y dronau (methwyd eu hedfan yn anffodus oherwydd y tywydd), trafod y canlyniadau a'r cymwysiadau posibl ar gyfer dronau mewn amaethyddiaeth yn y dyfodol. Bydd gan y drôn le i chwarae ochr yn ochr â'r platmetrau cyfredol a ddefnyddir i fesur tyfiant glaswellt.

Yn ogystal â'r ymchwil yn seiliedig ar Faesnewydd a'r dronau, trafododd David Evershed, Wallog, y seilwaith dŵr newydd y mae wedi ei osod ar ei fferm. Trwy integreiddio synwyryddion LoRaWAN i fonitro a rheoli o bell, mae wedi llwyddo i gylchredeg ei reolaeth o ddŵr ar y fferm. Mae hyn yn creu cyfleoedd mawr ar gyfer pori gwell a ffermio adfywiol, ac yn lleihau costau.

Hoffem ddiolch i Gyswllt Ffermio, ac i Gwenan yn arbennig, am eu cefnogaeth yn ystod yr ymchwil hwn. Credwn fod potensial yn y dyfodol i integreiddio technoleg i wneud ein ffermydd yn fwy effeithlon, fwy cyfeillgar i'r amgylchedd a lleihau costau.

*Jâms Morgan, Maesnewydd, Tal-y-bont*

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 7

# Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth



Rowland Davies, Dolclettwr, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 9 Medi. Bu'n egluro i ni sut i greu doliau ŷd, a dangosodd enghreifftiau hyfryd o'i waith a greodd ar gyfer priodasau teuluol. Gan ei bod yn hwyr yn y tymor a'r ŷd eisoes wedi ei gynaeafu, defnyddiodd Rowland frwyn wrth egluro'r grefft i ni, ac yna cawsom i gyd gyfle i greu 'cwlwm cariad'. Hefyd gwnaeth yntau greu ratl ar gyfer plentyn gyda'r brwyn. Mae doliau ŷd traddodiadol yn deillio o arfer paganaidd ac mae sôn amdanynt yn gyffredin mewn llên gwerin. Adeg cynhaeaf roedd yn arferol i ffermwr grefftio dol o ysgub olaf y cynhaeaf gan y credai ei bod yn cario ysbryd cynhaeaf ffrwythlon drwodd i'r gwanwyn nesaf pan fyddai hadau'n cael eu plannu eto. Diolchodd Meinir yn gynnes i Rowland am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd te a bisgedi a baratowyd gan Carys Briddon.

## Clwb Cant Neuadd Llanfach

**Enillwyr mis Awst:**
1. Rhif 49 Phyllis Ellis
2. Rhif 107 Ian Mitchell
3. Rhif 3 Glenys Griffiths

**Enillwyr mis Medi:**
1. Rhif 44 Jill E. Jones
2. Rhif 22 Andrea Keighley
3. Rhif 108 Michelle Walton

Cynhaliwyd Ras Peli ger Neuadd Llanfach ar brynhawn Sadwrn, 6 Medi, a dyma'r enillwyr:
1. Rhif 2 Anna Willmot
2. Rhif 435 Fleur James
3. Rhif 512 Sandi Jameson

# Sudoku Papur Pawb

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | 3 | | 9 | | | | 5 |
| | | | 8 | | 4 | | | |
| 7 | | 9 | | | | 1 | | |
| | 2 | 1 | | 3 | | | 8 | |
| 9 | | | 7 | | 2 | | | 1 |
| | 5 | | | 6 | | 3 | 2 | |
| | | 8 | | | | 5 | | 4 |
| | | | 3 | | 9 | | | |
| 4 | | | | 5 | | 7 | | 6 |

Dyma Sudoku Papur Pawb. Rhowch rhif o 1 i 9 ym mhob cell wag fel bod pob rhes, colofn a blwch yn cynnwys pob rhif o 1-9 heb ail-adrodd. Cofiwch ddefnyddio rhifau Cymraeg yn unig!

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Ddechrau mis Medi, aeth rhai o'r Cynghorwyr i gwrdd â Rhodri Llwyd ynghylch cynllun lliniaru llifogydd Tal-y-bont. Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr, gyda'r Cynghorwyr yn nodi ei bod yn bwysig cynnwys Afon Leri yn yr ystyriaethau, nid dim ond Afon Ceulan. Cafwyd sicrwydd nad y cynllun a roddwyd gerbron y gymuned yn gynharach eleni oedd yr un terfynol o bell ffordd, a bod sawl cam arall i ddod, yn cynnwys trafod â'r tirfeddianwyr a'r trigolion lleol. Nodwyd hefyd y byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ym mhob cam.

Mae'n siŵr bod nifer ohonoch wedi clywed am fwriad y Cyngor Sir i osod mannau i wefru ceir trydan ger Maesyderi. Nid mannau gwefru cyflym fydd y rhain, a bwriedir iddynt fod at ddefnydd y pentref cyfan. Anfonwyd awgrym at y Cyngor Sir ynghylch y lleoliad mwyaf cyfleus ar eu cyfer, felly cawn weld beth ddaw o hyn maes o law.

Mae bron yn bryd i fudiadau lleol wneud cais am gymorth ariannol unwaith eto. Hoffwn nodi y bydd y drefn fymryn yn wahanol eleni, ac y bydd angen llenwi ffurflen bwrpasol, a fydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y wefan neu gan y Clerc. Mae'n ffurflen ddigon syml, a'i diben yw gwneud pethau'n haws i'r Cyngor gymharu ac ystyried ceisiadau.

Cofiwch am wasanaeth Sul y cofio yn y Neuadd Goffa ar 9 Tachwedd – bydd posteri i'w gweld ar hyd y pentref i'ch hatgoffa mewn da bryd.

Mae'n bleser cael nodi bod ymgyrch Cae Bach wedi llwyddo i ddenu grant o £12,742 gan y Cyngor Sir yn ddiweddar, ac y byddwn yn dechrau prynu cyfarpar yn fuan. Diolch i bawb am eich holl gefnogaeth ers dechrau'r ymgyrch – ac yn arbennig i'r rheiny a fentrodd allan yn y glaw ar gyfer yr Helfa Drysor ddiwedd mis Awst. Diolch hefyd i bawb a helpodd i baratoi a gweini'r chilli yn y Neuadd ar ddiwedd yr helfa. Yn olaf, llongyfarchiadau i enillwyr Clwb 200 mis Medi:
1af – Gwerfyl Pierce Jones;
2il – Paul Watson;
3ydd – Maureen Wooton.

Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
M 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 8

# Lansio Tyfu Bwyd Ceredigion - adeiladu ein gwydnwch bwyd

Mae Partneriaeth Bwyd Ceredigion yn lansio 'Tyfu Bwyd Ceredigion', prosiect newydd wedi'i gynllunio i gefnogi ffermwyr lleol i arallgyfeirio i arddwriaeth. O datws i foron, o flodfresych i salad, mae'r prosiect yn darparu cymorth i ffermydd brofi cyfleoedd newydd ar raddfa cae (o leiaf un erw a mwy).

Rhan allweddol o'r prosiect yw creu Cylch Peirianwaith newydd (Machinery Ring) i ffermwyr Ceredigion a Sir Benfro. Bydd hwn yn rhoi mynediad i offer garddwriaeth arbenigol heb y costau mawr cychwynnol i ffermwyr. Bydd offer ar gael yn barod i'w fenthyg, ac y mae cyllideb gan y prosiect er mwyn prynu offer newydd ar gyfer plannu, chwynnu, a phrosesu.

Mae'r manteision i ffermwyr o'r prosiect yma yn cynnwys:

- **Arbed ar gostau:** Osgoi buddsoddiadau mawr mewn offer.
- **Cyngor arbenigol:** Cymorth un-i-un gyda chynllunio cnydau, dewis offer, a chael mynediad i'r farchnad.
- **Cysylltiadau:** Cysylltu â busnesau garddwriaeth leol a chynllun mentora a chynghori.
- **Mynediad i farchnadoedd:** Cyfleoedd i werthu i fentrau fel 'Llysiau o Gymru Mewn Ysgolion', bocsys llysiau, a marchnadoedd sy'n chwilio am gynnyrch lleol, ffres.

Mae gwaith ymchwil Partneriaeth Bwyd Ceredigion yn dangos bod pobl y Sir yn angerddol am y gallu i brynu bwyd sydd wedi ei gynhyrchu yn lleol, ac mae'r rhaglen 'Llysiau o Gymru Mewn Ysgolion' yn cynyddu'r angen am gynnyrch lleol. Felly dyma'r amser i dreialu cynnyrch newydd ar ffermydd.

Dywedodd Catrin M S Davies: "Mae hwn yn gyfle cyffrous iawn i ffermwyr yr ardal. Dyma gynllun dargyfeirio sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd – job mae ffermwyr wedi ei hen feistroli. Rydw i wedi ymweld â rhai o'r ffermydd sy'n rhan o'r cynllun hwn yn Ne Ceredigion ac mi oedd yn braf gweld cynnyrch o safon yn cael ei dyfu yn y sir. Mae'r prosiect Llysiau o



Gymru Mewn Ysgolion hefyd yn gwneud disgyblion yn ymwybodol o ble mae eu bwyd yn dod ac yn rhoi cyfle iddynt ymweld â'r caeau a rhoi eu dwylo yn y pridd. Os codwn ni ymwybyddiaeth y genhedlaeth ifanca o werth bwyd o safon, wedi ei dyfu yn lleol yna byddwn ni ar y ffordd i sicrhau dyfodol iachach i'n plant a dyfodol mwy sicr i'n ffermwyr.

Cynhaliwyd digwyddiad i lansio'r prosiect yma ar fferm Troed y Rhiw, ger Llwyndafydd ar y 6ed o Dachwedd. Bydd digon o gyfle i glywed gan fusnesau garddwriaeth llwyddiannus a dysgu mwy am y peirannau maent yn eu defnyddio. Cysylltwch am fanylion pellach.

**Sut i fod yn rhan o'r cynllun:** os oes gennych ddiddordeb mewn treialu tyfu cynnyrch ar raddfa un erw neu fwy, neu i ymuno â'n Cylch Peiriannau, byddem wrth ein boddau yn clywed gennych. Gallwch gysylltu â Siân Stacey (Cydlynydd Tyfu Bwyd Ceredigion) ar sian.tyfubwydceredigion@gmail.com

*Siân Stacey, Taliesin*

# Hen blismon y pentref




Roedd gan Dal-y-bont blismon pentref am flynyddoedd cyn i'r heddlu werthu orsaf yr heddlu i'r Lolfa.

Un ohonynt oedd Sarjant David Jenkins a derbyniwyd y llun yma ohono y tua allan i orsaf yr heddlu gydag aelodau o'r deulu. Tynnwyd y llun yn Awst 1939. Gyda'r sarjant mae ei wraig Lil ar y dde (Lil a David yn wreiddiol o Gnwch Coch), Alice chwaer Lil o Dreorci ar y chwith, y mab Jacky (wedyn o banc Natwest, Aberystwyth) a oedd yn 19 oed ar y pryd hwnnw, Annie merch Alice nesaf at Lil, a dynes arall anhysbys. Diolch i gyn-blismon arall, Robert Jenkins, Bow Street, am anfon y llun i ni.

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

# Cystadleuaeth **Calan Gaeaf**



## Ar gyfer plant dan 7 oed

Lliwiwch yr olygfa hydrefol hon am gyfle i ennill 'Ysgol Arswyd', un o lyfrau'r Lolfa! Dyma lyfr ar fydr ac odl am fwystfilod erchyll ac arswydus Cymru – Yr Hwch Ddu Gwta, Gwrachod Llanddona, Bwystfil Llyn Tegid a llawer mwy!

E-bostiwch gopi o'ch campwaith at ellyw@ylolfa.com neu dewch â chopi i'r Lolfa erbyn y 31ain o Hydref.

Bydd y llun buddugol yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn nesaf!









pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 10

# Cletwr

Mis Hydref eisoes! I ble aeth yr haf? Er gwaetha'r tywydd newidiol mae hi wedi bod yn gyfnod prysur yn y siop a chaffi, a diolch o'r galon i'r staff a gwirfoddolwyr sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau bod y cwsmeriaid wedi cael profiad da.

Cawsom noson anhygoel yng nghanol mis Medi, pan ddaeth Misha and the Kings am noson o gerddoriaeth wych (a swnllyd!). Diolch yn fawr iddyn nhw oll. (Cyn aelod o staff Cletwr yw Misha, a bu eu gig gyntaf yn Cletwr! Erbyn hyn maent yn canu ledled Cymru)

Ond nawr mae'n bryd i ni edrych i'r dyfodol, a'r misoedd tawelach dros y Gaeaf. Mae nifer o welliannau ar y gweill – neu sydd wedi digwydd. Mae oergell ychwanegol newydd yn y siop, felly dyma gyfle i ni ehangu ein stoc o fwydydd oer, gyda mwy o ddewis a chynhyrchion newydd. Rydym hefyd wedi gosod ffaniau awyru yn y siop i geisio lleihau'r tymheredd dros yr haf (tipyn yn hwyr, ond bydd pethau'n well haf nesaf). Rydym hefyd yn cynllunio am uwchraddiadau yn ein systemau trydan cynaliadwy – mwy o baneli haul, batris a generadur brys er mwyn lleihau ein bil trydan ac i sicrhau bydd Cletwr ar agor hyd yn oed pan rydyn ni'n colli pŵer oherwydd stormydd.

Ac wrth gwrs, mae rhaglen digwyddiadau ac adloniant yn ail-gychwyn. Rydym wedi trefnu sawl peth rhwng nawr a Nos Galan, gan gychwyn gyda Gwledd Gymunedol yr Hydref ar nos Wener 17eg o Hydref. Paratoir y bwyd i gyd (Tsili a Chrymbl, opsiynau fegan ar gael) gan aelodau'r Bwrdd, yr elw at Cletwr. Bu'r rhai llynedd yn fendigedig. Rhaid archebu erbyn y 13eg!

Wedyn, nos Sadwrn 25ain, bydd tri o gerddorion gwerin lleol, talentog iawn – Jon Bell, Mike McKever a Daniel Laws – yn dod atom. Manylion llawn yn y siop ac ar Facebook. Bydd bar ar gael.

Bob blwyddyn rydym wedi trefnu Ffair Crefftau'r Nadolig ar ddechrau mis Rhagfyr, ond llynedd dywedodd nifer o bobl ei fod yn rhy hwyr. Maen nhw'n gwneud eu siopa 'Dolig ym mis Tachwedd! Felly, eleni cynhelir Ffair Crefftau'r Gaeaf yn ei le! Nos Wener 7fed o Dachwedd. Manylion i ddilyn, ond os oes diddordeb gennych mewn cael stondin, cysylltwch â'r swyddfa yn fuan.

Fe fydd llawer mwy yn digwydd ym mis Tachwedd a Rhagfyr, gan gynnwys ymweliad y delynores a chantores o fri, Siân James, Dydd Sul 7fed o Ragfyr.

Dyna ddigon am y tro. Mae Cletwr unwaith eto yn ffynnu, diolch yn arbennig i'n cwsmeriaid ffyddlon a'r cefnogwyr a gyfrannodd i'n hapêl yn gynharach, ond i sicrhau bod Cletwr yn dal yma i'r gymuned am flynyddoedd i ddod, mae angen cwsmeriaid arnom. Dewch yn llu!




# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Nos Lun, 15fed o Fedi cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor Cangen Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Croesawyd yr aelodau gan Megan Mai a rhoddwyd croeso cynnes hefyd i aelodau o Gangen Genau'r Glyn a Chlwb Gwawr Y Pennau a oedd wedi gallu ymuno â ni. Braf gallu adrodd ein bod wedi croesawu tair aelod newydd atom.

Megan hefyd gyflwynodd Mair Tomos Ifans, ein gwraig wadd am y noson. Bu Mair yn byw yma yn y pentref am gyfnod rai blynyddoedd yn ôl a hyfryd oedd ei chroesawu atom, gyda'i thelyn fach a'i llwyth o lyfrau. Teitl y noson oedd 'Chwedl a Chân' a chanolbwyntiodd Mair, drwy adrodd ambell chwedl, a darlleniadau a chaneuon, ar hanesion am Owain Glyndŵr, gan y byddai'r diwrnod canlynol yn ddydd i'w gofio. Hedfanodd yr amser a diolchwyd i Mair am noson arbennig gan Elizabeth Evans drwy adrodd stori fach ei hun gan ddangos ei gallu hithau i adrodd stori yn ddifyr. Diolch hefyd i Noson Allan Fach am y nawdd tuag at gynnal y noson.

Dyma felly ddechrau gweithgareddau'r gaeaf i'r Gangen a hyfryd oedd gweld pawb a chael cyfle am sgwrs. Roedd y lluniaeth yng ngofal aelodau'r gangen ac Elizabeth a Megan oedd yn gyfrifol am drefnu'r noson. Bydd ein cyfarfod nesaf, yng Ngwaelod y Neuadd Goffa, nos Lun 20 Hydref am 7.30 o'r gloch, lle cawn hanes Caws Halwmi Gwarffynnon. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Ysgol Bro Hyddgen
Gwireddu
Breuddwydion

Ysgol Bro Hyddgen
Empowering
Dreams

**Noson Agored y Chweched Dosbarth**
**Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth**
**20/10/25 5.30-7.30 yh**

*Ansicr am eich cam nesaf ar ôl TGAU?*
*Dewch i astudio mewn ysgol gefnogol a chyfeillgar gydag uchelgeisiau mawr, canlyniadau ardderchog a dosbarthiadau bach.*

**Enillydd y Gwobr Aur Lefel A ALPS 2024 sy'n ein gosod yn y 25% uchaf o ysgolion a cholegau yng Nghymru a Lloegr am gynnydd gwerth ychwanegol.**

A Level - Gold Award
Alps
Top 25%
2024


**01654 704200 / swyddfa@brohyddgen.powys.sch.uk**

GWASANAETHAU
JETTING
JENKINS
JETIO DRAENIAU DOMESTIG A MASNACHOL & AROLYGON CCTV
jenkinsjetting@hotmail.com
07958 701861

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:32 pm Page 11

# Dal i fod yn fi, hunangofiant y cyflwynydd teledu, Mari Grug

Ebrill 2023, roedd y cyflwynydd teledu Mari Grug yn eistedd ar y soffa adre gyda'i gŵr, Gareth, pan ffeindiodd hi lwmp yn ei bron. Erbyn mis Mai roedd hi wedi derbyn y newyddion gwaethaf posib – deiagnosis o ganser y fron oedd wedi lledu i'r nodau lymff a'r afu. Doedd y dyfodol ddim yn ddisglair ac wrth drafod y camau nesa roedd sôn am ofal lliniarol.




A hithau ar y pryd yn 38 oed, yn fam i dri o blant bach ac yn gyflwynydd llawrydd ar y rhaglen Heno, doedd ganddi ddim dewis ond cario ymlaen er gwaetha difrifoldeb y sefyllfa.

Mae'r gyfrol hon yn dweud stori ddirdynnol, yn llawn dewrder Mari. Mewn geiriau a lluniau personol ohoni hi a'r teulu wrth iddyn nhw fyw y cyfnod hwn fe ddown ni i nabod y Mari go iawn.

Gydag un mewn pob dau yn debygol o dderbyn deiagnosis o ganser yn ystod eu bywyd, dyma stori ar gyfer pobol ymhobman. Dyma stori hefyd am fenyw ifanc, mam gariadus a chyflwynydd talentog sydd wedi cadw ei thraed ar y ddaear tra ei bod hi'n ysbrydoliaeth i eraill.

**Gwasg Y Lolfa, £11.99 Dyddiad Cyhoeddi – 14 Hydref 2025**

## Neuadd Goffa Tal-y-bont
## Cofiwch am Ffair y Neuadd

Sadwrn 29 Tachwedd
2.00 o'r gloch
Stondinau a Phaned a Sgwrs

# Y Gair Olaf



Ar ddiwedd yr haf a chyn i'r awr symud 'nôl, os y byddwch yn ddigon ffodus i allu eistedd yn yr ardd, beth ydych chi'n ei glywed pob pnawn Sadwrn a Sul (a phob dydd arall mewn gwirionedd) ond seiren yr ambiwlans, heddlu a'r frigad dân. Damwain yn rhywle mae'n siŵr.

Mae goryrru a gyrru heb feddwl am neb arall ar y ffordd ar gynnydd. Mae amynedd ambell un yn fyr iawn ar ôl mynd trwy sawl lle ar ugain milltir yr awr lle mae'n siwr y gellir mynd yn gyflymach.

Pan fyddaf yn dod i lawr wrth Ysgol Tal-y-bont, fe fydda' i'n aml iawn yn gweld lori yn dod i fyny drwy'r pentref. Rwy'n aros yno er mwyn iddo gael y ffordd yn glir i basio trwyddo. Yn aml iawn bydd rhywun yn fy mhasio ac yn creu trafferth i bawb gan nad oes modd i neb fynd yn eu blaenau.

Ar sawl car newydd rŵan ceir panel sy'n goleuo er mwyn eich rhybuddio eich bod wedi cyrraedd y terfyn cyflymder gyrru. Felly does dim esgus i anwybyddu'r cyflymder cywir. Mae'r cerbyd bron iawn yn siarad efo chi ac mae'n anodd iawn ei anwybyddu.

Mae'r cyntaf o Hydref wedi cyrraedd a braf fydd rhoi allwedd y car naill ochr a mynd ar daith drên o Fachynlleth i Bwllheli a dim ond edrych ar olygfa fendigedig yr arfodir ac anghofio am y GYRRU.

*Aileen Williams*

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs / Dau gwrs)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

## Lluniau!

Rydym wrth ein boddau'n derbyn eich lluniau i gyd-fynd â straeon yn y papur. Cofiwch gysylltu â'r golygyddion i rannu gwybodaeth am stori neu ddigwyddiad lleol, ac i rannu llun!

Er mwyn sicrhau ansawdd da, gofynnwn i chi:

- Sicrhau bod y llun yn eglur ac o ansawdd uchel
- Anfon copi gwreiddiol o'r llun (heb ei docio na'i olygu)
- Anfon dros e-bost yn ddelfrydol

Diolch am eich cyfraniad ac am sicrhau bod y straeon yn dod yn fyw i'r darllenwyr!

Garej Davmor
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278




Dewch o hyd i ni ar @Garej Davmor

pp Hydref 25.qxp_Layout 1 08/10/2025 7:33 pm Page 12

# Chwaraeon a Hamdden

## Camp Elaine




Ers rhai blynyddoedd, mae trigolion Tal-y-bont wedi hen arfer gweld Elaine Rowlands, Maesyfelin, yn gwibio nerth ei thraed ar hyd llwybrau'r pentref yn ymarfer ar gyfer cystadleuthau triathlon.

Mae triathlon yn cynnwys nofio, beicio a rhedeg pellteroedd hir. Ddechrau Medi bu Elaine yn cystadlu yn Y Bala mewn 'sprint trial' gan nofio 750 metr yn Llyn Tegid, beicio am 12 milltir a rhedeg 3.5 milltir. Tipyn o dreial. Daeth yn ail yn adran F60 mewn amser teilwng o 1 awr a 36 munud.

Yr wythnos ganlynol, teithiodd Elaine i Weymouth i gystadlu mewn cystadleuaeth 'Hanner Ironman' a oedd yn cynnwys nofio 1.2 milltir, beicio am 56 milltir a rhedeg am 13.1 milltir. Allan o'r 75 menyw a fu'n cystadlu daeth Elaine yn 27ain. Tipyn o gamp.

Rhaid bod yr holl gystadlu wedi ysgogi ei merch, Kayleigh, i ddilyn ôl traed ei mam wrth iddi redeg yn hanner marathon Caerdydd ar 5 Hydref.

## Hanner Marathon



Garmon Nutting a Bethan Jones, Nantlais, Dôl Pistyll, Tal-y-bont fu hefyd yn rhedeg yn hanner marathon Caerdydd ar 5 Hydref. Bu Bethan yn rhedeg i godi arian ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer, a bu Garmon yn rhan o ymgyrch i godi arian tuag at y Gymdeithas Strôc ar y cyd â'i fodryb, Gwen, a'i gyfnither, Hedydd, er cof am y diweddar Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail.

## Tomos i'r adwy



Roedd gan Glwb Pêl-droed Tal-y-bont dasg anodd oddi cartref ar 4 Hydref yn erbyn Eilyddion Ffostrasol yn rownd gyntaf Cwpan Coffa Dai Dynamo Davies. Doedd fawr ddim rhwng y ddau dîm ar ddiwedd y 90 munud gyda'r sgôr yn gyfartal 1-1 a rhaid oedd chwarae amser ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwnnw fe sgoriodd Tomos Benjamin, Cysgod y Crib, Dôl Pistyll, Tal-y-bont y gôl dyngedfennol i gipio'r fuddugoliaeth i Dal-y-bont a chadw rhediad di-guro'r tîm y tymor hwn.

## Rali Ceredigion



Cynhaliwyd Rali Ceredigion yn ystod penwythnos cyntaf Medi, gyda cheir yn gwibio trwy ardal y papur. Cafodd nifer o drigolion hwyl wrth wylio'r rasio a gweld y Gwyddelod, Jon Armstrong a Shane Byrne yn dod i'r brig.

y lolfa
Argraffwyr a Chyhoeddwyr

Cyfle gwych yng nghalon gwasg amlycaf Cymru

Rheolydd Cynhyrchu

yn eisiau i lywio gwaith trwy'r wasg. Swydd amrywiol a diddorol mewn cwmni blaengar, Cymraeg. Manylion llawn gan Garmon Gruffudd ar garmon@ylolfa.com. Ceisiadau i law erbyn Tachwedd 3ydd.

Y Lolfa Cyf. Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 | ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Probert & Williams
eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
Cymraeg
www.probertandwilliams.co.uk